Y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC
Y Prif Weinidog
Llywodraeth Cymru
Tŷ Hywel, Bae Caerdydd
Caerdydd, CF99 1NA

8 Rhagfyr 2016

Annwyl Brif Weinidog

**Cyfarfod 18 Tachwedd 2016**

Diolch i chi am ddod i gyfarfod cyntaf y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog yn y Pumed Cynulliad.

Roedd y Pwyllgor yn ddiolchgar i chi am fod mor agored yn ateb ein cwestiynau. Yn dilyn y cyfarfod, cytunwyd y dylwn ysgrifennu atoch gyda'r sylwadau canlynol a rhai cwestiynau ychwanegol sy'n deillio o'ch sylwadau.

**Y Rhaglen Lywodraethu**

Roedd yr Aelodau'n ddiolchgar am eich atebion ynghylch datblygiad a chynnwys *Symud Cymru Ymlaen 2016-2021*, gan gynnwys mewn perthynas â'i le yn y cyd-destun allanol cyfredol a'ch penderfyniadau ynghylch blaenoriaethu gwahanol feysydd polisi.

Yn dilyn y sesiwn, cytunwyd y dylwn ofyn i chi am ragor o wybodaeth ynghylch sut y datblygwyd y sylfaen dystiolaeth ar gyfer polisïau a rhaglenni'r Rhaglen Lywodraethu.

Yn ogystal, fe ddywedoch yn ystod y sesiwn y byddech yn disgwyl i amcanion llesiant Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Rhaglen Lywodraethu, fod yn rhan o farnu gwaith eich Llywodraeth. Hoffai'r Aelodau gael eglurhad

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
CraffuPW@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/CraffuPW
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
ScrutinyFM@assembly.wales
www.assembly.wales/ScrutinyFM
0300 200 6565

ynghylch a ydych hefyd yn bwriadu datblygu dangosyddion penodol ar gyfer mesur cynnydd yn erbyn *Symud Cymru Ymlaen*.

**Gwariant ar iechyd a gofal cymdeithasol**

Roedd Aelodau wedi'u calonogi gan eich cydnabyddiaeth o'r angen i fynd i'r afael â'r her o ymateb i faint o alw sydd ar y GIG ar hyn o bryd, gan flaenoriaethu ar yr un pryd y mesurau ataliol i leihau nifer yr achosion o gyflyrau cronig yn y dyfodol. Byddem yn gwerthfawrogi rhagor o fanylion ynghylch sut y bydd eich Llywodraeth yn gweithio tuag at sicrhau cydbwysedd priodol rhwng gwariant iechyd ar anghenion presennol ac anghenion yn y dyfodol.

**Meddygon Teulu**

Roedd gan Aelodau'r Pwyllgor ddiddordeb yn eich ymatebion mewn perthynas â'r heriau presennol wrth recriwtio a chadw meddygon teulu mewn rhai ardaloedd o Gymru. Dywedoch mai eich barn chi yw ei bod yn debygol y bydd mwy o swyddi meddygon teulu cyflogedig yn y dyfodol, ac y gallai hyn fod yn gyfle i ardaloedd o Gymru sydd wedi cael anawsterau o ran recriwtio meddygon teulu i brynu mewn practisau yn y ffordd draddodiadol. Awgrymoch hefyd eich bod yn credu mai rôl i fyrddau iechyd yw hyn yn bennaf.

Hoffai'r Aelodau gael rhagor o wybodaeth ynghylch a yw Llywodraeth Cymru wrthi'n datblygu rhagor o waith yn y maes hwn, neu a yw'n ystyried gwneud hynny.

**Bil Cymru**

Wrth ateb cwestiynau ynghylch Bil Cymru, cynigioch rannu llythyr dyddiedig 14 Gorffennaf 2016 ynghylch aelodaeth o grŵp cyfiawnder Llywodraeth y DU. Hoffai'r Pwyllgor gael copi o'r llythyr hwn.

Hefyd, hoffem ofyn am ddiweddariad ynghylch y cynnydd tuag at ddod i gytundeb ar fframwaith cyllidol gyda Llywodraeth y DU, o ystyried eich datganiad i'r Pwyllgor

bod angen y cytundeb hwn cyn bod modd ystyried cefnogi cynnig cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer Bil Cymru.

**Tollau Pont Hafren**

Yn olaf, yn ystod ein trafodaeth ynghylch materion amserol, cytunoch i ddarparu nodyn i'r Pwyllgor ar y sefyllfa gyfreithiol mewn perthynas â thollau Pont Hafren pan fydd y pontydd bellach o dan berchnogaeth gyhoeddus. Fe gofiwch fod hyn mewn ymateb i gwestiwn ynghylch a fyddai Llywodraeth y DU angen cytundeb Llywodraeth Cymru i barhau i godi tollau o'r pwynt hwnnw.

Byddwn yn ddiolchgar o gael eich ymateb i'r pwyntiau uchod maes o law.

Yn gywir

**Ann Jones AC**
**Y Dirprwy Lywydd**
**Cadeirydd y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog**